

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

29 Medi 2021


Annwyl Weinidog

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Iechyd a Gofal

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrthi'n craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Medi 2021. Er mwyn llywio ein trafodaethau, byddem yn croesawu eich ymateb i'r materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Er mwyn ein galluogi i ystyried eich barn yn unol â'r dyddiad cau ar gyfer adrodd a bennwyd gan Bwyllgor Busnes Senedd Cymru, byddai'n ddefnyddiol derbyn eich ymateb erbyn **dydd Mawrth 19 Hydref** fan bellaf.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil Iechyd a Gofal ("y Bil"), byddem yn croesawu eich barn ar y materion a restrir isod.

- 1.** Y wybodaeth ddiweddaraf ar drafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r materion a godwyd yn y Memorandwm, gan gynnwys manylion unrhyw sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio, gwelliannau y mae'n eu cynnig, neu gytundebau a wnaed gyda Llywodraeth y DU. Byddem hefyd yn ddiolchgar o dderbyn copïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol â Llywodraeth y DU ar y materion hyn.
- 2.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch nifer o gymalau yn y Bil. Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am bryderon Llywodraeth Cymru mewn perthynas â:
 - a. Cymal 85 (Systemau gwybodaeth meddyginiaethau).
 - b. Cymal 120 (Trefniadau gofal iechyd rhyngwladol)
 - c. Cymal 123 (Rheoleiddio gofal iechyd a darpariaethau cysylltiedig).
- 3.** Mae paragraff 70 o'r Memorandwm yn nodi y gallai'r Bil gael effeithiau negyddol posibl ar gyrff y GIG yng Nghymru. Byddem yn croesawu manylion pellach am natur a graddau disgwylidig yr effeithiau negyddol hyn.
- 4.** Barn Llywodraeth Cymru ar oblygiadau posibl cymal 75 (darpariaethau tacluso ac ati ynghylch cyfrifon rhai cyrff y GIG) i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.
- 5.** Barn Llywodraeth Cymru ar unrhyw oblygiadau i Gymru o ailstrwythuro'r GIG yn Lloegr a gynigir gan y Bil, gan gynnwys unrhyw faterion trawsffiniol a ragwelir, materion cyflogaeth, neu faterion yn ymwneud â chomisiynu gwasanaethau i gleifion Cymru o GIG Lloegr fel gwasanaethau iechyd meddwl, gofal cleifion mewnol neu wasanaethau canser.
- 6.** Gwybodaeth bellach am y goblygiadau ariannol posibl sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil, a sut y cânt eu cynnwys yng ngwaith cynllunio ariannol Llywodraeth Cymru.
- 7.** Amlinelliad o'r rhesymau dros beidio â gosod y Memorandwm hwn gerbron y Senedd tan wyth wythnos ar ôl cyflwyno'r Bil i Senedd y DU pan fydd Rheol Sefydlog 29.2(i) yn ei gwneud yn ofynnol i Memorandwm gael ei osod fel rheol ddim hwyrach na phythefnos ar ôl cyflwyno'r Bil.

Sut i roi'ch barn

Gallwch anfon eich ymateb dros e-bost i seneddiechyd@senedd.cymru erbyn dydd Mawrth 19 Hydref 2021 fan bellaf.

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â [Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd](#), mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrefodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu yn ôl eu â'u safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Gweler y [canllawiau](#) i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen polisi'r Senedd ar [ddatgelu gwybodaeth](#) cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.